

CYNGOR SIR Y FFLINT
25 IONAWR 2022

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth 25 Ionawr 2022.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Joe Johnson (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Robert Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Dave Hughes, Ray Hughes, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, ac Arnold Woolley.

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:

Y Cyngorwyr: Bernie Attridge, Cindy Hinds, Andy Hughes, Rita Johnson, Billy Mullin a David Wisinger

74. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr.
Cynigiodd y Cynghorydd Owen Thomas eu bod yn gywir, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Small.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

75. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorwyr McGuill ac Axworthy gysylltiad personol ag eitem 8 ar y rhaglen – Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22 gan eu bod yn aelodau o Fwrdd NEW Homes.

76. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Eglurodd y Cadeirydd bod ei gyhoeddiadau wedi'u hanfon ar e-bost i bob Aelod yr wythnos diwethaf.

77. DEISEBAU

Dim.

78. COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Mr Andy Dunbobbin, i'r cyfarfod i drafod rôl, effaith a gweithrediadau'r Comisiynydd a sut mae'r Comisiynydd a'r cynllun heddlu a throsedd yn gweithio gydag ac er budd Sir y Fflint mewn partneriaeth.

Diolchodd Mr Dunbobbin i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr am roi cyfle iddo annerch yr Aelodau. Ei rôl yw sicrhau bod pobl gogledd Cymru yn derbyn y gwasanaeth heddlu gorau posibl. Mi fydd yn glust ac yn llais cryf ar ran pobl gogledd Cymru ac roedd yn ffyddiog y bydd gogledd Cymru, drwy gydweithio, yn lle diogel i fyw a gweithio, gyda'r nod yn y pendraw o wella bywydau pawb yn y gymuned. Diolchodd i'r Cynghorydd David Evans, ei ragflaenydd fel Cefnogwr y Lluoedd Arfog.

Roedd yn braf ganddo weld y gwaith sydd wedi'i wneud ers iddo gael ei ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd a sut mae cymunedau wedi cefnogi ei gilydd; mae arno eisiau i'r synnwyr hwnnw o gymuned gael ei adlewyrchu yn ei gynllun.

Un o'r cwynion mwyaf cyffredin yw diffyg presenoldeb yr heddlu yn y gymuned, ac addawodd i weithio'n galed i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion yr heddlu. Roedd yn benderfynol o sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid i ddarparu gwasanaeth hyd yn oed gwell gyda mwy o bobl yn teimlo'n saffach ac yn hyderus yn yr heddlu. Mae'r cynllun wedi'i lunio yn dilyn ymgynghori gyda phartneriaid a gyda chymorth cannoedd o bobl a lenwodd yr arolwg, ac roedd yn ddiolchgar iawn am hynny. Bydd yn monitro sut mae Heddlu Gogledd Cymru a'i bartneriaid yn cyflawni'r blaenoriaethau yn ofalus iawn, sef:

- **Darparu cymdogaethau mwy diogel:** atal a mynd i'r afael â throsedd gwledig a bywyd gwyllt; gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion a staff yr heddlu; a gwella diogelwch ar y ffyrdd
- **Cefnogi dioddefwyr a chymunedau:** atal a mynd i'r afael â chamdrin domestig a thrais rhywiol; diogelu pobl ddiamddiffyn, yn cynnwys plant; atal a mynd i'r afael â seiberdrosedd; ffurfio panel dioddefwyr; ac atal a mynd i'r afael â throseddau casineb
- **System gyfiawnder deg ac effeithiol:** cyflwyno Strategaeth Troseddwr Benywaidd Gogledd Cymru; cynyddu'r defnydd o gyfiawnder adferol; cefnogi a diogelu plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio oddi wrth y System Gyfiawnder Troseddol; a mynd i'r afael â gwraidd troseddau a chefnogi adsefydliad pobl sydd wedi troseddau

Mae'r cynllun wedi'i gefnogi gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion, o ddelio cyffuriau mewn trefi i droseddau gwledig ar ffermydd, mae'n hollbwysig bod gan bob cymuned berthynas a phrofiadau cadarnhaol gyda'r heddlu lleol. Yn ogystal â chynyddu nifer y swyddogion yn y gymuned, mae hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda'r Prif Gwnstabl i wella'r cymorth digidol sydd ar gael i swyddogion a staff yr heddlu er mwyn iddynt allu treulio mwy o amser yn y gymuned.

Mae gwella diogelwch ar y ffyrdd yn bwysig ac roedd yn awyddus i weld gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd y gogledd, gyda dull llym i fynd i'r afael â gyrwyr peryglus neu esgeulus. Soniodd hefyd am y rhwydwaith ffyrdd a'i gyfraniad at linellau cyffuriau.

Mae atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn dal yn flaenoriaeth bwysig ac addawodd y byddai gogledd Cymru yn amgylchedd gelyniaethus i'r rheiny sy'n cyflawni troseddau o'r fath, drwy ddarparu technegau ymchwilio effeithiol, diogelu drwy bartneriaeth a defnyddio technoleg yn arloesol i'w gwneud yn anoddach i bobl droseddu ac aildroseddu.

O ran y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, bydd y strategaeth yn cydnabod anghenion merched a'u natur ddiameddiffyn o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd pwyslais ar bwysigrwydd ymyrraeth gynnar, yn cynnwys cysylltu a dargyfeirio, penderfyniadau y tu allan i'r llys a ffocws ar ddatrysiadau cymunedol gyda'r nod o leihau poblogaeth carchardai a gwella amcanion hirdymor merched a'u teuluoedd.

Mae nifer yr achosion o seiberdroseddu yn cynyddu'n gyflym ac mae hynny'n peri bygythiad mawr i fusnesau'r DU. Mae Tîm Seiberdroseddu wedi'i sefydlu ac mae'n hollbwysig bod dull yr heddlu ar gyfer seiberdroseddu yn cael ei gydlynw'n dda ac yn darparu gwasanaeth o ansawdd ac effeithiol i bobl.

Diolchodd yr Aelodau i'r Comisiynydd am ei gyflwyniad gan wneud sylwadau a gofyn cwestiynau ar y materion canlynol, ac ymatebodd y Comisiynydd iddynt:

- Problemau wrth ddefnyddio'r gwasanaeth 101 – mae hon yn broblem genedlaethol ac argymhellodd y Comisiynydd bod pobl yn defnyddio'r cyfleuster sgwrsio ar y we, sydd wedi bod yn llwyddiannus a'r system Rhybudd Cymunedol
- Croesawu seiberdroseddu fel blaenoriaeth – dyma'r tro cyntaf i hyn fod yn amcan strategol
- 20,000 yn fwy o swyddogion yr heddlu erbyn 2023 – Ni fydd gogledd Cymru yn manteisio ar y rhaglen tan fis Ionawr 2023
- Elw o droseddau – mae yna nifer o asiantaethau gwahanol yn ymwneud â'r gwaith yma ac mae un gronfa ariannol yn cael ei rhannu rhyngddynt
- Pobl yn teimlo'n ddiogel wrth fynd at yr heddlu – mae gwaith yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol i sicrhau bod swyddogion yn derbyn hyfforddiant priodol. Mae dynion ifanc a bechgyn yn cael eu

haddysgu am ymddygiad ac mae rhaglen SWAN yn cefnogi merched

- Presenoldeb Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned – roedd yn cydnabod pwysigrwydd eu presenoldeb yn y cyfarfodydd ond mae'n bosibl eu bod yn delio gyda materion pwysig, a gall cynghorau tref a chymuned rhoi gwybod am unrhyw bryder ar unrhyw adeg
- Yn Lloegr mae merched yn gallu cerdded i mewn i orsafoedd tân os ydynt yn teimlo eu bod mewn perygl ac os nad oes gorsaf heddlu gerllaw – gellir edrych i mewn i hyn. Mae yna hefyd y cynllun 'Ask Angela' sydd ar waith mewn tafarndai
- Iechyd meddwl yn bryder mawr – mae cyfarfod wedi'i gynnal gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ddatblygu menter iechyd meddwl newydd
- Mae cyfraddau troseddu yn uwch yn y gogledd na'r de a chyfartaledd Cymru/Lloegr – byddai angen edrych ar brosesau cofnodi ac adrodd y ffigyrau hynny
- Diffyg ymateb gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu – bydd hyn yn cael ei godi gyda'r Prif Gwnstabl ond gall Aelodau hefyd godi'r mater gyda'r Arolygydd
- Ailddechrau 'paned 'fo plismon' – bydd y Comisiynydd yn holi ynghylch hyn
- A oes trawsgrifiad o'r sgwrs we ar gael – bydd y Comisiynydd yn holi ynghylch hyn

Codwyd nifer o faterion ynglŷn â wardiau a materion gweithredol – dywedodd y Comisiynydd y byddai'n tynnu sylw'r Prif Gwnstabl atynt.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Comisiynydd am ddod i'r cyfarfod, roedd yn gwerthfawrogi hynny'n arw. Awgrymodd y dylai ddod eto ymhen blwyddyn i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyflawni'r cynllun a'r ymrwymadau a drafodwyd. Awgrymodd y Comisiynydd y gallai ddod eto fel rhan o'r rhaglen gyflwyno Aelodau newydd ar ôl yr etholiad.

Diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i'r Comisiynydd am ddod i'r cyfarfod ac am y ffordd y mae wedi delio ac ymateb i'r cwestiynau.

Cynigiodd y Cynghorydd Dunbar bod y Cyngor yn diolch i'r Comisiynydd am ddod a'i wahodd i siarad efo'r Cyngor newydd nes ymlaen yn y flwyddyn. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bithell.

PENDERFYNWYD:

Diolch i'r Comisiynydd am ddod a'i wahodd i siarad efo'r Cyngor newydd nes ymlaen yn y flwyddyn.

79. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DDEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) ac eglurodd unwaith eto fod y Ddeddf yn ddarn arwyddocaol o ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu nifer o faterion. Mae'n ddeddfwriaeth anferth – gyda 170 o adrannau ac 14 o

atodlenni, a dyna pam bod y cyfnod datblygu wedi bod mor hir. Mae rhai agweddau o'r Ddeddf yn adlewyrchu'r hyn mae Sir y Fflint, fel awdurdod arfer gorau, yn ei wneud yn barod. Ar gyfer y rhannau eraill bydd y swyddogion yn gwneud y gwaith angenrheidiol i'w gweithredu o fewn yr amserlenni penodedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r Ddeddf eisoes wedi dod i rym ond mae yna rai darpariaethau allweddol na fydd ar waith tan 5 Mai 2022, i gyd-fynd â dyddiad Etholiadau'r Llywodraeth Leol.

Mae gweithgor swyddogion wedi'i sefydlu i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llawn a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyngor o bryd i'w gilydd.

Mae cynnydd hyd yma wedi'i nodi yn yr atodiad i'r adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Phillips ac eiliodd y Cynghorydd Ian Roberts bod y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod yr adroddiad briffio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor;
- (b) Bod y Cyngor yn nodi goblygiadau cyfansoddiadol a goblygiadau eraill y Ddeddf, a bod y Gweithgor Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn gweithio arnynt dan arweiniad y Prif Swyddog (Llywodraethu).

80. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad i'w gymeradwyo.

Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Tachwedd 2021, adolygodd yr Aelodau'r adroddiad Canol Blwyddyn a'i argymhell i'r Cabinet. Derbyniodd y Cabinet yr adroddiad Canol Blwyddyn ar 18 Ionawr 2022 a'i argymhell i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Diolchodd y Cynghorydd Johnson i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm am eu gwaith ar yr adroddiad, ac am yr hyfforddiant Rheoli Trysorlys a ddarparwyd i Aelodau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at y llog blynyddol ar fenthycyca hirdymor a dywedodd bod angen ei leihau cymaint â phosibl gan ei fod ar hyn o brys dros £1 miliwn y mis.

Gofynnodd y Cynghorydd Bithell, gan fod chwyddiant dros 4% ar y funud, oes modd i gyfraddau llog godi. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod y Cyngor yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda'i ymgynghorwyr ynglŷn â'r sefyllfa economaidd i'r dyfodol gan fod yna bosibilrwydd y byddai cyfraddau llog yn codi ac yn cael effaith ar fenthyciadau'r Cyngor. Fodd bynnag, yn ystod y broses gyllidebu ar gyfer y costau benthyca, fe roddwyd ystyriaeth ofalus i hynny am y rheswm hwnnw.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Johnson ac eiliodd y Cynghorydd Ian Roberts bod y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22.

81. DIWYGIADAU I'R COD YMARFER AR GYFER CYNLLUNIO

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor wedi diweddarau'r Protocol Cwrdd â Chontractwyr ym mis Ebrill 2021 fel rhan o adolygiad y cyfansoddiad. Mae'r rhannau sy'n ymwneud â delio gyda chontractwyr/datblygwyr a thrydydd parti a all fod yn cynnig neu'n ceisio am gontract gyda'r Cyngor wedi'u diwygio. Penderfynodd y Cyngor y dylid symud y rhannau sy'n ymwneud â chysylltu gyda chontractwyr i'r Cod Ymarfer Cynllunio er mwyn osgoi dyblygu.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol mai'r rhannau sy'n darparu cyngor mewn perthynas â datblygwyr sy'n cael eu symud i'r Cod Ymarfer Cynllunio, ac y byddai'r Cod Ymarfer Cynllunio yn cael ei ddiwygio fel y bo'n briodol.

Yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill 2021, ble cymeradwywyd y protocol diwygiedig, gofynnodd yr Aelodau hefyd am gynnwys cyngor yn y Cod Ymarfer Cynllunio ar y broses ymgynghori cyn cyflwyno cais.

Ystyriwyd y newidiadau arfaethedig uchod gan y Grŵp Strategaeth a gofynnwyd am addasiadau ychwanegol i'r Cod Ymarfer Cynllunio a fyddai o gymorth i Aelodau sy'n ymwneud â'r broses gynllunio.

Ar 5 Gorffennaf 2021 cynigiodd y Pwyllgor Safonau ragor o ddiwygiadau. Ystyriodd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democraataidd y Cod Ymarfer Cynllunio diwygiedig ar 30 Medi 2021, a'i gymeradwyo yn amodol ar rai newidiadau pellach.

Awgrymodd y Cynghorydd Bithell, mewn perthynas ag 8.1 – ymgynghoriadau cyn cyflwyno cais cynllunio, y dylid ychwanegu 'pan fydd y cais yn cael effaith sylweddol ar ward yr Aelod' ar ôl 'bydd Aelod y ward cyfagos yn cael ei wahodd i'r cyfarfod'. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod yr awgrym yn cyd-fynd â gweddill y ddogfen. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Peers, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y penderfyniad ynghylch beth fydd yn digwydd yn cael ei wneud yn naturiol fel rhan o'r broses.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hardcastle, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod adran 9.3.5 yn ymwneud ag ymweliadau â safleoedd a nodiadau briffio a wneir ar unrhyw bwynt a godir.

Cynigwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Phillips a'i eilio gan y Cynghorydd Bithell.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cod Ymarfer Cynllunio, fel yr amlygir yn yr atodiad; a
- (b) Ychwanegu 'pan fydd y cais yn cael effaith sylweddol ar ward yr Aelod' ar ôl 'bydd Aelod y ward cyfagos yn cael ei wahodd i'r cyfarfod' yn 8.1.

82. DATGANIAD A GWAREDIAD TIR NAD OES EI ANGEN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ac eglurodd fod yn rhaid i'r Cyngor, o dro i dro, benderfynu nad oes arno angen darn o dir, ac yn ei gategoreiddio fel 'tir nad oes ei angen'. Caiff tir o'r fath ei werthu gan gynhyrchu derbyniadau sy'n ariannu'r rhaglen gyfalaf.

Mae'n bwysig bod y penderfyniad i wneud hynny yn cynnwys ymgynghoriad gyda'r partiön perthnasol, yn enwedig os yw'r eiddo yn rhan o'r stad addysg.

Nid yw'r broses wedi'i dogfennu ac argymhellir bod proses fer yn cael ei chynnwys yn y Cyfansoddiad er mwyn egluro pethau a sicrhau ein bod ni'n dryloyw.

Cynigwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Phillips a'i eilio gan y Cynghorydd Bithell.

Gofynnodd y Cynghorydd Bithell pwy sy'n prisio'r tir ac eglurodd y Prif Weithredwr y byddai hynny'n dibynnu ar y tir, ac y byddai'r prisiwr mwyaf priodol yn cael ei ddefnyddio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Tudor Jones, dywedodd y Prif Weithredwr bod yna achlysuron lle mae darn o dir i'w waredu wedi bod ar safle ysgol a dan yr amgylchiadau hynny mae'r Cyngor yn trafod gyda'r ysgol.

Cafwyd trafodaeth o ran pryd fydd Aelodau ward yn rhan o'r broses o waredu tir. Teimlodd yr Aelodau y dylai hynny fod yn gynt yn y broses, a cynigiodd y Cynghorydd Richard Jones ddiwygiad i gynnwys "pan fo darn o dir yn cael ei nodi fel tir nad oes ei angen, dylid rhoi gwybod i'r Aelod lleol".

Fel cynigydd ac eilydd yr argymhelliad, derbyniodd y Cynghorwyr Phillips a Bithell y diwygiad i ffurfio rhan o'r cynnig gwreiddiol.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Roberts, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod yna ddulliau atebolrwydd a fyddai'n cael eu hadrodd drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn ar bris gwerthu tiroedd sydd wedi'u gwaredu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Marion Bateman, eglurodd y Prif Weithredwr fod y tir sydd ar werth ar y Gofrestr Asedau, sy'n ddogfen gyhoeddus.

PENDERFYNWYD:

Bod y broses arfaethedig ar gyfer nodi a gwaredu tir nad oes ei angen yn cael ei chynnwys yn y Cyfansoddiad a bod Aelodau Lleol yn cael gwybod pan fydd darn o dir wedi'i nodi fel tir nad oes ei angen. Bydd pris gwerthu tiroedd sydd wedi'u gwaredu yn cael ei adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

83. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

84. CWESTIYNAU

Dim.

85. RHYBUDD O GYNNIG

Dim.

86. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 p.m. a daeth i ben am 4.20 p.m.)

.....
Cadeirydd